CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 3 GORFFENAF 2007

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer –Cyng. M P Jones

Cynghorwyr
R M Jones, I C Thomas, W T Owen, H Edwards, H W Roberts, H Gwyn, O T Owen, A W Bohana, W R Owen, A Kirk, A Y Williams, M E Williams, T Thomas, G Parry

Gweddïau
Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Cyng. H Edwards

1. Ymddiheuriadau

Neb

2. Cyhoeddiadau'r Maer
   - Agor Ras Cestyll
   - Sul Y Maer – Bangor
   - Parc Coed Helen – agor lle golff newydd efo'r Ryder cup
   - Noson Wobrwyo – Clwb Ieuenctid
   - Clwb peldroed – noson gwobrwyo dartiau yng nghwmni Bobby George
   - Sul Y Maer – Caernarfon – diolch i bawb am ddiwrnod mor dda
   - CCTC – twrnamaint peldroed
   - Cartref Penisarwaen – ymweld a Mr Ffrancon Williams yn 100 oed
   - CCTC – cyfarfod yng Nghonwy
   - Gwobrwyo Cadets ATC
   - Sul Y Maer – Conwy
   - Eglwys Santes Fair – perfformiad gwych cwmni "Red Dragon"
   - Cyfarfod gyda cwmni "imagemakers"
   - Cyfarfod Noddfa
   - Cadeirlan Bangor – gosod lliwiau Gwarchodlu Cymreig
   - Gwarchodlu Cymreig yng Nghaernarfon- diwrnod fythgofiadwy
   - Agoriad swyddogol Plas Pawb
   - Sul Y Maer – Dinbych

3. Datgan Buddiant Personol

H Edwards – cynllunio
R M Jones – cynllunio
G Parry – cynllunio
W T Owen – cynllunio
A Y Williams- cynllunio (5)
H W Roberts – cynllunio (2)

4. Eitemau Brys

Hawl i weithredu – 14
Gefeillio – 15
Llythyr Cyngor Gwynedd – adran trwyddedu – 16
Cais Ariannol Sioe Gogledd Cymru – 17
Cystadleuaeth Gerddi – 18
Llythyr Mr G H Roberts – 19
Cystadleuaeth Golff CCTC – 20

5. Cofnodion

i. Cyngor ,5 Mehefin 2007- newid Rhybudd o Gyngor i Gynnig
ii. Pwyllgor Cyffredinol 19 Mehefin 2007

Ychwanegu enw Cyng. H W Roberts o dan ymddiheuriadau Pwyllgor

Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Cynllunio

I ystyried y ceisiadau

Penderfynwyd
I anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol- gweler rhestr amgaeedig.

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau, rhoddion a chyflogau a dalwyd

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth a'u talu

8. Unllais Cymru

i. Pwyllgor Cynghorau Mwy 10 Gorffennaf 2007
ii. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – angen 2 gynnig i drafod

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth, anfon ein cynrychiolwyr megis Cyng. H Edwards i'r Pwyllgor Cynghorau Mwy a Cyng. H Edwards a Cyng. A Bohana i'r Cyfarfod blynyddol.

Unrhyw syniadau mae unigolion eisio roi gerbron fel cynnig ar gyfer y cyfarfod blynyddol i ddod i law y clerc erbyn 11Gorffennaf 2007

(rhoddwyd hawl i weithredu yn y pwyllgor ar yr eitem yma)

9. Llythyrau Cyngor Gwynedd

i. Gwaharddiad Defnydd Dros Dro – Ffordd Llanberis
ii. Gwaharddiad Defnydd dros dro – Ffordd Segontium
iii. Parthed Stryd Bangor
iv. Maes Hyfryd
v. Cau Ffordd ddi-ddosbarth – Y Maes

Penderfynwyd
Derbyn Er gwybodaeth

10. Ysgol Yr Hendre

Angen Llywodraethwr
Penderfynwyd
Cyng. A Bohana i gynrychioli'r Cyngor

Cyrhaeddodd Cyng. W R Owen a Cyng. WT Owen am 6.35

11 T.C.G

Adroddodd y clerc am gyfarfod a fu rhwng y Maer, Dirprwy a'r clerc ynghyd a chwmni allanol mae Cyngor Gwynedd wedi cyflogi i ymchwilio i mewn i'r system T.C.G ac i weld os yw'r defnydd gorau yn cael ei wneud o'r system .

Ar hyn o bryd mae'r system yn cael ei ddefnyddio i arbed troseddu. A oes modd defnyddio'r system yn ehangach e.e sbwriel, defnyddio'r stategau i rhywbeth arall?

Unrhyw syniadau i'r clerc erbyn diwedd mis Gorffennaf

12.Archwiliad Mewnol

Llythyrau wedi derbyn gan yr ymchwilydd mewnol i gadarnhau bod pob dim yn gywir.

Clerc angen cwblhau adroddiad i'r archwilydd allanol. Cynghorwyr i gyd yn hapus a'r cynnwys, ac yn ddiolchgar am eiriau caredig yr archwilydd mewnol

Penderfynwyd

I'r clerc symud yn ei flaen i ddanfon y papurau perthnasol i'r archwilydd allanol

13. Cwestiynau

1.Pa bryd yr ydym yn cael "headed notepaper" newydd

Yn cael ei ddefnyddio yn barod

14. Hawl i weithredu

Penderfynwyd

I roi yr hawl i weithredu i'r Maer, Dirprwy Faer a'r Clerc i weithredu ar geisiadau cynllunio, talu biliau ac unrhyw faterion brys dros egwyl yr haf.

15. Gefeillio

Adroddodd Cyng. H Gwyn ar ddigwyddiadau ar gyfer yr ymweliad.
Yn cynnwys:-
Ymweliad i'r castell ar ddydd Gwener
Twmpath yn Llanberis
Pwyllgorau Gefeillio ar ddydd Sadwrn
Cinio Swyddogol yn y Celt
Gwasanaeth yn Eglwys Llanfaglan ar y dydd Sul
Noson anffurfiol yn cynnwys rhostio mochyn yn Galeri
Pawb sydd yn dymuno mynd i unrhyw un o'r nosweithiau adael i'r Cyng. H Gwyn neu Cyng. R M Jones wybod cyn gynted a phosibl.

16. Llythyr Adran trwyddedu

Gohebiaeth i geisio newid y farchnad i ddydd Mawrth yn hytrach na dydd Llun

Penderfynwyd
I ganiatáu'r newid er mwyn cadw'r farchnad yn y dre

17. Cais ariannol Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru

Penderfynwyd
Cyfrannu rhodd o £500

18. Cystadleuaeth Gerddi

I ystyried gofyn wrth un o'r cyn enillwyr i gyd feirniadu.

Penderfynwyd
I ofyn wrth enillydd y Fron Goch Challenge cup i feirniadu (ynghyd a'r beirniad gwreiddiol)

19. Llythyr am arwyddion y dre

Gohebiaeth gan Gruffydd Huw Roberts

Penderfynwyd
Symud yr eitem i'r pwyllgor cyffredinol nesaf

20. CCTC- Golff

Angen tîm ar gyfer twrnamaint golff yn Ninbych Awst 25

Penderfynwyd
I'r clerc cysylltu a Chlwb Golff Caernarfon er mwyn cael tîm

Gorffennodd
y cyfarfod am 7.10

Arwyddwyd..... Dyddiad.....